

# Penodi Aelodau Grŵp Atebolrwydd Allanol Cymru Wrth-hiliol: Cynrychiolwyr Amrywiaeth

## 1. CEFNDIR

Rydym yn chwilio am wyth cynrychiolydd o gymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol, sy'n byw ac yn gweithio yng Nghymru i ymuno â Grŵp Atebolrwydd Allanol (Grŵp Atebolrwydd) Cymru Wrth-hiliol Llywodraeth Cymru, fel Cynrychiolwyr Amrywiaeth.

Bydd Cynrychiolwyr Amrywiaeth o bob cwr o Gymru yn ein cefnogi i gyflawni ein Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol – (<https://llyw.cymru/cynllun-gweithredu-cymru-wrth-hiliol/https://gov.wales/anti-racist-wales-action-plan>)

Bydd gan yr ymgeiswyr llwyddiannus brofiad personol / uniongyrchol o hiliaeth a phrofiad o weithio i ddatrys yr heriau sy'n wynebu pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yng Nghymru. Gall hyn, er enghraifft, gynnwys gweithio'n uniongyrchol gyda'r amrywiaeth o fewn y cymunedau ethnig leiafrifol, cynrychioli pryderon cymunedol ar wahanol fforymau cyhoeddus neu breifat, cynnull gwahanol grwpiau i leisio eu pryderon, darparu gwasanaethau uniongyrchol, gweithredu fel gweithredwyr, eiriolwyr neu gynrychiolwyr unigolion, galluogi a grymuso gwahanol grwpiau, i enwi ychydig yn unig.

Mae'n allweddol y byddant yn gallu dod â phrofiadau bywyd eu hunain a'u cymuned i helpu i weithredu'r Cynllun a chynnig her a chefnogaeth hefyd fel bod diben y gwaith – sef creu newidiadau gwirioneddol i fywydau pobl ethnig leiafrifol, fel y nodir yn y Cynllun, yn cael ei wireddu.

Bydd ganddyn nhw hefyd ddealltwriaeth o'r gwahanol ddulliau o fynd i'r afael â hiliaeth a manteision dulliau gweithredu gwrth-hiliol.

Bydd y penodiad am hyd at ddwy flynedd a bydd yn cael ei wneud mewn ffordd agored a thryloyw.

Fel llais a phrofiad y gymuned ar y Grŵp Atebolrwydd, ynghyd ag aelodau eraill o'r Grŵp gan gynnwys arbenigwyr hil a chynrychiolwyr o'r sector cyhoeddus, byddant yn helpu i weithredu a chynghori ar ein gwaith drwy gymryd rhan yn ein trefniadau llywodraethu ar gyfer y Cynllun hwn. Hefyd, gallant ddarparu cyngor ychwanegol i lunwyr polisi o fewn Llywodraeth Cymru, pan fo'n ofynnol, drwy gydsyniad ar y ddwy ochr.

Ynghlwm yn Atodiad A ac Atodiad B mae'r trefniadau llywodraethu a chylch gwaith y ddau grŵp ar gyfer gweithredu'r gwaith hwn. Mae esboniad llawn o sut y bydd y trefniadau llywodraethu'n gweithio a pha gamau y byddant yn helpu i ganolbwyntio arnynt yn y Cynllun manwl, tudalennau 19-22. ([Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol | LLYW.CYMRU](#))

I grynhoi, mae'r Grŵp Atebolrwydd yn cael ei sefydlu i gynghori, cefnogi, herio a chyd-gynllunio â Llywodraeth Cymru a gwasanaethau cyhoeddus ehangach, er mwyn sicrhau bod y Cynllun a'i weledigaeth ar gyfer Cymru Wrth-hiliol yn cael eu darparu'n effeithiol ac yn amserol. Bydd ei aelodaeth yn cynnwys saith arbenigwr gwrth-hiliaeth y mae eu penodiadau ar y gweill ar hyn o bryd ac wyth Cynrychiolydd Amrywiaeth – a fydd yn cael eu penodi drwy'r broses hon. Bydd cynrychiolaeth hefyd gan sefydliadau allweddol eraill fel Llywodraeth Cymru, TUC Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, ac eraill.

Er mwyn cefnogi a galluogi'r Grŵp Atebolrwydd gallwn hefyd ddefnyddio adnoddau Uned Tystiolaeth Cydraddoldeb Llywodraeth Cymru ac yn benodol yr Uned Tystiolaeth Gwahaniaethau ar sail Hil (gweler eu nodau a'u hamcanion yn Atodiad C).

Wrth ddewis yr wyth Cynrychiolydd Amrywiaeth, byddwn yn ceisio adlewyrchu aelodaeth o wahanol grwpiau gwarchoddedig o gymunedau ethnig leiafrifol ar draws Cymru gyfan. Bydd hyn yn cynnwys cynrychiolaeth o'r grwpiau canlynol:

- Menywod
- Pobl LHDTTC+
- Pobl anabl
- Pobl ifanc
- Pobl hŷn
- Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches
- Cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr
- Grwpiau ffydd
- Cynrychiolaeth o bob rhan o Gymru

Fel grŵp, bydd y Cynrychiolwyr Amrywiaeth yn amrywiol yn eu cefndiroedd a'u profiadau.

## 2. MANYLEB Y PERSON A CHYFRIFOLDEBAU

**Manyleb y person: Bydd y profiad bywyd a'r ddealltwriaeth y byddwch yn ei gyfrannu at y Grŵp yn cynnwys y canlynol:**

1. Eich profiad bywyd chi fel person Du, Asiaidd neu Ethnig Leiafrifol a'ch dealltwriaeth a'ch profiad personol / uniongyrchol o effaith hiliaeth ar gymunedau ethnig leiafrifol;
2. Lleisiau a phrofiadau bywyd cymunedau rydych chi wedi gweithio gyda nhw i greu atebion a dylanwadu ar newid mewn gwasanaethau;
3. Eich profiad o weithio gyda gwahanol grwpiau ethnig leiafrifol, er enghraifft gweithio'n uniongyrchol gyda chymunedau ethnig leiafrifol, cynrychioli pryderon cymunedol ar wahanol fforymau cyhoeddus neu breifat, cynnull gwahanol grwpiau i leisio'u pryderon, darparu gwasanaethau uniongyrchol,

- gweithredu fel ymgyrchwyr, eiriolwyr neu gynrychiolwyr unigolion, galluogi a grymuso gwahanol grwpiau;
4. Dealltwriaeth o wahanol ddulliau o fynd i'r afael â hiliaeth a manteision dulliau gweithredu gwrth-hiliol;
  5. Sgiliau rhyngbersonol a chyfathrebu cryf i gynnig sgysiau adeiladol ac i rannu eich gwybodaeth a'ch dealltwriaeth o sut mae hiliaeth sefydliadol a systemig yn effeithio ar fywydau gwahanol grwpiau ethnig leiafrifol;
  6. Profiadau ac ymrwymiad i werthoedd y Cynllun – byddwch yn barod i roi profiadau bywyd wrth wraidd y broses o wneud penderfyniadau bob amser, gweithio mewn ffordd dryloyw ac agored a mabwysiadu dull sy'n seiliedig ar hawliau;
  7. Enghreifftiau o ba newidiadau sydd eu hangen er mwyn gwella'r effeithiau anghyfartal ar gymunedau ethnig leiafrifol. Nid oes yn rhaid i chi fod yn arbenigwr polisi ond bydd angen ceisio sgwrs chwilfrydig am sut y gallai helpu i newid pethau;
  8. Enghreifftiau o sut rydych chi wedi gweithio gan adlewyrchu amrywiaeth y profiadau ymhlith pobl ethnig leiafrifol, er enghraifft gweithio gyda phobl ethnig leiafrifol sy'n fenywod, pobl anabl, pobl LHDTC+, pobl ifanc neu bobl hŷn, pobl o wahanol grwpiau ffydd, ffoaduriaid neu fudwyr, sy'n byw mewn ardaloedd gwledig neu drefol ac ati.

**Cyfrifoldebau: Bydd y cyfrifoldebau canlynol gan y Cynrychiolydd Amrywiaeth fel aelod o'r Grŵp Atebolrwydd Allanol:**

- Chwarae rôl weithgar, adeiladol, fel aelod o dîm y Grŵp Atebolrwydd ac chefnogi Llywodraeth Cymru i gyflawni cylch gwaith y Grŵp Atebolrwydd;
- Sicrhau bod profiadau bywyd ac anghenion amrywiaeth o bobl ethnig leiafrifol yn ganolog i waith y Grŵp;
- Darparu syniadau ac awgrymiadau ar arferion gwrth-hiliol mewn cyd-destunau gwahanol sy'n berthnasol i weithredu'r Cynllun;
- Cynnig her gyda chefnogaeth, a sicrhau bod profiadau bywyd pobl ethnig leiafrifol bob amser yn llywio datblygiad a defnyddio dulliau gweithredu sy'n seiliedig ar hawliau;
- Gweithio ar y cyd a phan fo angen, cyd-lunio gydag aelodau'r Grŵp Atebolrwydd i gynnig cefnogaeth, nodi polisïau newydd allweddol sydd eu hangen a'u cefnogi;
- Cynghori ar y ffordd orau i hyrwyddo'n gweledigaeth o 'Gymru wrth-hiliol';
- Bod yn bresennol a mynd ati i gyfrannu at gyfarfodydd deufisol y Grŵp Atebolrwydd ac ymateb i ymholiadau perthnasol rhwng cyfarfodydd;
- Gweithio gyda'r Grŵp Atebolrwydd a'r Uned Tystiolaeth i dynnu sylw at fylchau a chyfleoedd er mwyn mynd i'r afael â meysydd pryder a allai fod mewn perygl o beidio cael eu rhoi ar waith;
- Hyrwyddo, rhannu a chefnogi gwaith y Grŵp Atebolrwydd ymysg cymunedau ethnig leiafrifol mewn ffordd sy'n cyfleu cynnydd a deall rhwystrau; a
- Mynd i ddigwyddiadau a chyfarfodydd ychwanegol yn ôl y gofyn.

Ar adegau, rydym yn rhagweld y gallai arweinwyr polisi penodol fod angen cyngor, cefnogaeth, cymorth neu her ychwanegol gennych chi. Chi a'r arweinydd polisi fydd

yn cytuno ar y gwaith ychwanegol hwn a bydd golygu gwaith ychwanegol felly byddwch yn derbyn taliad amdano ar wahân.

## Y Gymraeg

- Sgiliau Cymraeg: Mae'r gallu i gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg yn ddymunol ond nid yn hanfodol. Dylai pob ymgeisydd ddangos ymwybyddiaeth a dealltwriaeth gadarnhaol o bwysigrwydd y Gymraeg i Gymru ddwyieithog a gwerthfawrogi polisïau a strategaethau Llywodraeth Cymru dros yr iaith.

### 3. FFEITHIAU ALLWEDDOL AM Y SWYDD

Bydd gwaith y Cynrychiolydd Amrywiaeth yn cael ei oruchwylio gan y Cyfarwyddwr Cymunedau a Threchu Tlodi, a byddant yn cynnal perthynas agos gyda phennaeth tîm cyflawni'r Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol. Mae'n bosibl y bydd y Cyd-Gadeiryddion o bryd i'w gilydd yn ceisio cyfarfod â Chynrychiolwyr Amrywiaeth ar y cyd neu'n unigol er mwyn gofyn am adborth, cyngor a chefnogaeth.

Os byddant yn llwyddiannus, bydd disgwyl i Gynrychiolydd Amrywiaeth ddod i sesiwn sefydlu rhithiol a digwyddiadau eraill, er enghraifft seminar neu uwch-gynhadledd bosibl ar y gwaith hwn.

#### Tâl cydnabyddiaeth

Er mwyn gwneud y gwaith hwn, byddwn yn cynnig tâl o £198 y dydd, i'w hawlio bob chwarter neu bob chwe mis, yn ôl dymuniad yr ymgeisydd.

#### Ymrwymiad amser

Bydd angen isafswm ymrwymiad o 16 diwrnod y flwyddyn. Bydd y penodiad cychwynnol am chwe mis. Bryd hynny, byddwn yn adolygu eich mewnbwn gyda chi ac ar ôl hynny os bydd popeth yn iawn, yn cadarnhau'r penodiad tan fis Mawrth 2024. Bydd penderfyniad y Cyfarwyddwr yn derfynol.

Os ydych eisoes yn was cyhoeddus yng ngwasanaethau cyhoeddus Cymru, rydym yn rhagweld y byddwch yn cytuno â'ch cyflogwr fod hyn yn rhan o'ch cytundeb presennol gyda nhw ac na fyddwch yn cael eich talu. Mae Llywodraeth Cymru yn hapus i drafod y trefniant hwn fel rhan o ddyletswydd gwasanaeth cyhoeddus gyda'ch cyflogwyr os ydym yn ariannu neu'n cydweithio â nhw.

#### Lleoliad cyfarfodydd yn ymwneud â'r rôl

Ym Mharc Cathays, Caerdydd y mae prif adeilad Llywodraeth Cymru. Mae disgwyl y byddwch chi'n cyfrannu'n rhithiol yn bennaf. Fodd bynnag, bydd eithriadau pan fydd angen inni eich gwahodd i gyfarfodydd, ee cyfarfodydd gyda staff Llywodraeth Cymru, seminarau, digwyddiadau sefydlu neu gynadleddau. Os bydd angen i chi deithio i fynd i gyfarfod, byddwn yn talu costau teithio a llety. Rydym yn rhagweld y bydd y rhan fwyaf o'n cyfarfodydd yn rhithiol.

## Cymhwysra

Bydd disgwyl i chi arddangos safonau uchel o ran ymddygiad corfforaethol a phersonol. Os byddwch yn llwyddiannus, gofynnir i chi gadw at saith egwyddor bywyd cyhoeddus tebyg i'r rhai y mae aelodau bwrdd cyrff cyhoeddus yn ymrwymo iddynt ([Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau Bwrdd Cyrff Cyhoeddus Mehefin 2019 \(publishing.service.gov.uk\)](http://publishing.service.gov.uk)) a'r rhai a amlinellir yng Nghynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol

Mae gofyn i ymgeiswyr ddatgan a ydynt yn ymwybodol o unrhyw beth yn eu bywydau preifat neu broffesiynol a fyddai'n embaras iddyn nhw eu hunain neu i Lywodraeth Cymru pe bai'n dod yn hysbys pe baent yn cael eu penodi.

Gofynnir i chi ddatgan unrhyw ddiddordebau preifat a allai wrthdaro, neu a allai ymddangos fel pe baent yn gwrthdaro â rôl a chyfrifoldebau'r Grŵp Atebolwydd, gan gynnwys unrhyw fuddiannau busnes a swyddi ag awdurdod y tu allan i'r rôl ar y grwpiau. Bydd unrhyw achosion o wrthdaro buddiannau yn cael eu harchwilio yn ystod y broses benodi.

## Diwydrwydd Dyladwy

Bydd Llywodraeth Cymru'n cynnal gwiriadau diwydrwydd dyladwy ar bob ymgeisydd y gellir eu penodi. Bydd hyn yn cynnwys, ymysg pethau eraill, chwiliadau cyfryngau cymdeithasol a chwiliadau rhyngrwyd. Os byddwch yn llwyddiannus, mae'n bosibl y gofynnir i chi hefyd ddarparu enw dau ganolwr (cyflogwr a phersonol) y byddwn yn cysylltu â nhw. Nid ydym yn rhagweld y byddwch yn cael mynediad at liniaduron Llywodraeth Cymru.

## 4. Y BROSES YMGEISIO

Bydd y broses ymgeisio yn cynnwys y canlynol:

- Cyflwyno datganiad yn nodi sut rydych yn bodloni meini prawf disgwylidig Manyleb y Person a'r cyfrifoldebau a amlinellir uchod.
- Bydd ymgeiswyr yn mynd trwy broses sifftio yn y lle cyntaf, yn seiliedig ar y datganiadau a wnaed am y gofynion (profiad bywyd a dealltwriaeth) a bodloni cyfrifoldebau'r swydd (fel y nodir uchod).
- Yna bydd ymgeiswyr sy'n llwyddo yn y cam sifftio yn cael eu hystyried yn ôl y meini prawf canlynol i wneud yn siŵr bod gennym gynrychiolaeth o wahanol rannau o Gymru ac yn cynnwys y canlynol:
  - Menywod
  - Pobl LHDTTC+
  - Pobl anabl
  - Pobl ifanc
  - Pobl hŷn
  - Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches
  - Cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr
  - Grwpiau ffydd

- Cynrychiolaeth o bob rhan o Gymru

## 5. SUT I YMGEISIO

- I wneud cais, darparwch ddatganiad personol yn nodi yr hyn y gallwch ei gynnig a sut y byddwch yn bodloni'r cyfrifoldebau. Ni ddylai'r datganiad hwnnw fod yn hwy na 4 tudalen A4, maint ffont Arial 12. Mae'n bosibl y caiff eich cais ei wrthod os ydych yn mynd dros y terfyn hwn.
- Rhaid i'r datganiad personol ddangos sut rydych chi'n bodloni'r profiad bywyd, a'ch bod yn deall y gofynion a amlinellir ym manyleb y person. Sylwch na fydd unrhyw wybodaeth nac atodiadau eraill yn cael eu hystyried.
- Yn ogystal â'ch datganiad personol, cyflwynwch CV cyfredol sy'n cefnogi eich cais. Nodwch unrhyw benodiadau Gweinidogol presennol neu flaenorol.
- Rhowch enwau, cyfeiriadau e-bost, cyfeiriadau post, a rhifau ffôn y ddau ganolwr.
- Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw 11am, dydd Llun 17 Hydref 2022. Ni ystyrir ceisiadau a ddaw i law ar ôl y dyddiad/amser hwn. Anfonwch eich cais wedi ei gwblhau i [cangencydraddoldeb@llyw.cymru](mailto:cangencydraddoldeb@llyw.cymru) erbyn y dyddiad cau.
- Mae croeso i chi wneud cais ar gyfer y penodiad hwn hyd yn oed os ydych wedi gwneud cais ar gyfer penodiadau'r Arbenigwyr yn ôl Profiad ac Arbenigedd a hysbysebwyd ar 26 Awst 2022. Sicrhewch fod eich cais ar gyfer y penodiad hwn yn mynd i'r afael â manyleb a dyletswyddau'r person fel yr amlinellir yn yr hysbyseb hon.

## 6. PENODI

- Os byddwch yn llwyddiannus, fe gewch lythyr yn eich penodi fel aelod o'r Grŵp Atebolrwydd Allanol, gan gadarnhau ar ba delerau y cynigir y penodiad.
- Os na fyddwch yn llwyddiannus, bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi gwybod i chi. Rydym yn gwerthfawrogi bod angen llawer o amser ac ymdrech er mwyn ymgeisio am rolau, ac felly mae rhoi adborth yn rhan werthfawr o'r broses. O ganlyniad, bydd yr ohebiaeth yn rhoi adborth ar eich cais os ydych yn dymuno hynny.

## 7. DATGANIAD AMRYWIAETH

Mae Llywodraeth Cymru yn credu y dylai cyrff cyhoeddus gael aelodau Bwrdd sy'n adlewyrchu'r gymdeithas yng Nghymru – pobl o bob cefndir – i'w helpu i ddeall anghenion pobl a gwneud penderfyniadau gwell. Dyna pam mae Llywodraeth Cymru yn annog ystod eang ac amrywiol o unigolion o gymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol i wneud cais am benodiadau i gyrff cyhoeddus. Rydym yn croesawu'n arbennig geisiadau gan bob grŵp sydd heb gynrychiolaeth ddigonol gan gynnwys menywod, pobl dan 30 oed, pobl anabl, pobl LHDTC+, pobl hŷn, Sipsiwn, Roma a Theithwyr a grwpiau ffydd.

## 8. HYDERUS O RAN ANABLEDD

Mae Llywodraeth Cymru yn arddel y diffiniad cymdeithasol o anabledd, lle cydnabyddir bod rhwystrau mewn cymdeithas yn analluogi pobl sydd ag amhariadau neu gyflyrau iechyd, neu sy'n defnyddio Iaith Arwyddion Prydain. Rydym wedi ymrwymo i ddileu rhwystrau fel y gall pob aelod o staff berfformio ar ei orau. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn defnyddio'r diffiniad meddygol o anabledd ("nam corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith sylweddol a hirdymor ar allu person i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd").

Rydym wedi ymrwymo i ddatblygu gyrfya pobl anabl. Os hoffech ragor o wybodaeth am y swydd a'r addasiadau y gallwn eu gwneud i ddiwallu eich anghenion, cysylltwch â Patrick Daly drwy e-bost: [Patrick.Daly@llyw.cymru](mailto:Patrick.Daly@llyw.cymru).

Os oes gennych amhariad neu gyflwr iechyd, neu os ydych yn defnyddio Iaith Arwyddion Prydain ac os oes angen i chi drafod addasiadau rhesymol ar gyfer unrhyw ran o'r broses benodi hon, cysylltwch â Patrick Daly ar y manylion uchod cyn gynted â phosibl, a bydd aelod o'r tîm yn cysylltu â chi i drafod eich gofynion ac unrhyw gwestiynau sydd gennych.

## 9. MANYLION CYSWLLT

I gael rhagor o wybodaeth ynglŷn â'r broses ddethol neu rôl y Grŵp Atebolrwydd Allanol / Grŵp Cefnogi a Herio Mewnol, cysylltwch â:

Riaz Hassan, Pennaeth Tîm Gweithredu Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol  
E-bost: [Riaz.Hassan@llyw.cymru](mailto:Riaz.Hassan@llyw.cymru)

## Atodiad A – Grŵp Atebolrwydd Allanol

### Cefndir

Mae'r Cynllun Cymru Wrth-hiliol yn nodi gweledigaeth, diben a gwerthoedd a gafodd eu cyd-gynllunio ac y cytunwyd arnynt, a fydd yn sail i waith y Grŵp Atebolrwydd.

### Gweledigaeth:

“Cymru sy'n wrth-hiliol.”

### Diben:

“Cydweithio i wneud gwahaniaeth mesuradwy i fywydau pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yng Nghymru.”

### Gwerthoedd:

“Bod yn agored ac yn dryloyw, rhoi profiad bywyd wrth wraidd popeth a wneir a bod yn seiliedig ar hawliau.”

Tynnodd y cynllun datblygu sylw at broblem a welir ym mhob sector, sef diffyg ymddiriedaeth yn y gwaith o gefnogi neu alluogi camau gweithredu ynghylch cydraddoldeb hil. Mae 'bwllch gweithredu' hefyd, lle mae gwaith a chynlluniau a wnaed gyda bwriadau da yn methu â chyflawni yn erbyn yr amcanion a nodwyd.

Er mwyn i'r Cynllun Cymru Wrth-hiliol wireddu'r weledigaeth a'r diben a nodwyd ganddo, bydd angen gwneud gwaith cyson i ennyn a chynnal ymddiriedaeth unigolion, grwpiau a chymunedau ethnig lleiafrifol a sicrhau bod gwaith yn canolbwyntio'n barhaus ar weithredu.

Bydd Grŵp Atebolrwydd y Cynllun Cymru Wrth-hiliol (y Grŵp) yn gweithio'n rhagweithiol, ac ar y cyd â Grŵp Cefnogi a Herio Mewnol Llywodraeth Cymru a'r Uned Tystiolaeth Gwahaniaethau ar Sail Hil, yn ogystal â fforymau rhanbarthol ar gyfer hil a grwpiau gwarchoddedig eraill. Bydd yn sicrhau bod y gwaith a wneir ganddo yn gyson â meysydd a pholisïau eraill Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud â chydaddoldeb, ac yn cyd-fynd â nhw. Mae Atodiad 7 yn dangos rôl a chylch gwaith Grŵp Cefnogi a Herio Mewnol Llywodraeth Cymru.

### Diben

Diben cyffredinol y Grŵp Atebolrwydd hwn fydd sicrhau cynnydd tuag at ddiben y Cynllun drwy ddwyn y bobl hynny sy'n gyfrifol am y gwaith i gyfrif am yr hyn y maent yn ei gyflawni, neu'n methu â'i gyflawni. Mae'r cyfrifoldeb dros sicrhau bod camau gweithredu'n cael eu rhoi ar waith yn aros gyda'r arweinwyr polisi a'r sectorau ehangach sy'n gyfrifol am y camau gweithredu hynny.

Bydd y Grŵp hefyd yn gweithredu fel man canolog ar gyfer llywodraethu unrhyw waith sy'n ymwneud â hil yn Llywodraeth Cymru, ac yn sicrhau bod gwaith yn gydlynol pan gaiff ei ddatblygu a phan gaiff ei gyflawni. Bydd hefyd yn craffu ar gydymffurfiaeth â deddfwriaeth Cydraddoldebau. Bydd y Grŵp hefyd yn asesu i ba raddau y mae cynnydd yn cael ei wneud tuag ag at wireddu'r weledigaeth, yn ogystal â herio, cefnogi (gan gynnwys cyd-gynllunio) a chynghori ar unrhyw agweddau ar



faes gwrth-hiliaeth y dylid ymchwilio iddynt ym marn y Grŵp, ar sail heriau a llwyddiannau newydd wrth iddynt ddod i'r amlwg.

Bydd cylch gwaith y Grŵp yn cynnwys y canlynol:

- gosod blaenoriaethau ar gyfer y Nodau a'r Camau Gweithredu sy'n bwysig ac y mae angen eu rhoi ar waith ar frys yn eu barn nhw;
- cael adroddiadau gan Grŵp Cefnogi a Herio Mewnol Llywodraeth Cymru a chraffu arnynt;
- gofyn i Weinidogion fod yn bresennol ar gyfer eitemau penodol ar yr agenda;
- asesu, herio ac adrodd ar gynnydd o ran gwireddu'r weledigaeth drwy roi'r nodau a'r camau gweithredu yn y Cynllun ar waith, gan sicrhau bod y cynnydd hwn yn gwneud gwahaniaeth sylweddol i brofiad bywyd pobl ethnig leiafrifol yng Nghymru;
- nodi'r polisiâu allweddol newydd sydd eu hangen a helpu i gyd-gynllunio unrhyw bolisiâu o'r fath;
- nodi a gwneud argymhellion mewn perthynas â themâu a chamau gweithredu newydd sy'n dod i'r amlwg er mwyn gwneud cynnydd tuag at y weledigaeth a hyrwyddo arferion da;
- chwarae rôl allweddol yn y gwaith o ddatblygu rhaglen waith yr Uned Tystiolaeth Gwahaniaethau ar Sail Hil a dylanwadu arno, fel y bydd modd i'r grŵp ymateb i bryderon ynghylch patrymau hiliaeth, neu pan na fydd y newid a ddymunir yn digwydd ar ôl rhoi camau gweithredu ar waith. Mae hyn yn cynnwys awgrymu gwaith casglu data meintiol neu ansoddol neu waith dadansoddi er mwyn llenwi unrhyw fylchau yn y sail dystiolaeth. Gallai'r Uned ymgymryd â'r prosiectau seiliedig ar dystiolaeth hyn neu eu comisiynu (e.e. gan Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru) er mwyn bodloni'r rhan hon o'r cylch gwaith;
- gwahodd sefydliadau, gan gynnwys Comisiynwyr, rheoleiddwyr a chyrrff arolygu ac archwilio i drafod materion sy'n rhan o'u meysydd dylanwad;
- gwneud argymhellion ar gyfer defnyddio dulliau ysgogi presennol o fewn y Llywodraeth mewn modd sy'n sicrhau'r effaith fwyaf bosibl, a cheisio atgyfnerthu unrhyw ddulliau ysgogi o fewn y Llywodraeth yr ystyrir eu bod yn angenrheidiol er mwyn gwneud cynnydd mewn perthynas â gwrth-hiliaeth;
- cynnal Grwpiau Gorchwyl a Gorffen fel sy'n ofynnol gan Weinidogion Cymru neu fel y nodwyd gan y Grŵp ei hun ac mewn ymgynghoriad â Llywodraeth Cymru;
- gwahodd, ar sail ad hoc, unrhyw arbenigwr a fydd yn ychwanegu gwerth ym marn y Grŵp er mwyn rhoi cymorth, tystiolaeth neu gyfeiriad ar fater penodol;
- sicrhau dull croestoriadol o ymgymryd â'r holl waith polisi;
- cyhoeddi datganiadau cynnydd cyhoeddus bob blwyddyn.

### **Adnoddau ar gyfer y Grŵp**

Dyrennir swm penodol o adnoddau ariannol i'r Grŵp Atebolrwydd bob blwyddyn er mwyn comisiynu adroddiadau, ymchwil ac eitemau eraill yr ystyrir eu bod yn angenrheidiol.

### **Ffyrdd o Weithio**

Bydd gwerthoedd y Cynllun yn gweithredu fel egwyddor arweiniol ar gyfer y ffyrdd o weithio a fabwysiadir gan y Grŵp. Bydd hyn yn golygu cyflwyno heriau gyda lefel uchel o gymorth, gan sicrhau bod profiadau bywyd pobl ethnig leiafrifol yn llywio cynnydd bob amser, bod y Grŵp yn gweithio mewn modd tryloyw ac agored bob amser, a bod y dull a ddefnyddir yn seiliedig ar hawliau yn lle ffafr ac felly ei fod yn wrth-hiliol.

Un o'r negeseuon cryf a ddaeth i'r amlwg wrth ddatblygu'r Cynllun oedd y dylai'r trefniadau llywodraethu a ddefnyddir i oruchwylio'r gwaith o'i weithredu gymell pobl i gymryd camau. Felly bydd y Grŵp yn gwneud argymhellion ynghylch y dulliau ysgogi a'r offerynnau y dylid eu defnyddio er mwyn ysgogi newid a chyfeirio sylw ac adnoddau. Mae modd i'r Grŵp Atebolrwydd reoli rhai dulliau ysgogi, megis tystiolaeth, ond mae dulliau ysgogi eraill lle mai dim ond y rheini sy'n gyfrifol sy'n gallu eu rhoi ar waith, e.e. Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am lythyrau cylch gwaith, amodau grantiau ac ati. Wrth i'r gwaith o weithredu'r Cynllun fynd rhagddo, cynhelir trafodaeth â Gweinidogion Cymru am yr angen am ddulliau ysgogi pellach, at ddefnydd y llywodraeth neu'r Grŵp Atebolrwydd.

Er mwyn gallu parhau i gynnal trafodaethau lefel uchel â grwpiau ehangach o randdeiliaid ethnig lleiafrifol a rhanddeiliaid eraill ledled Cymru, bydd y Grŵp yn mynd ati i gynnal trafodaethau â'r fforymau rhanbarthol ar gyfer Hil a grwpiau gwarchoddedig eraill.

Caiff y Grŵp ei gefnogi gan yr Uned Tystiolaeth Gwahaniaethau ar Sail Hil a, lle mae croestoriadedd yn bwysig, yr Unedau Tystiolaeth Cydraddoldeb, Hil ac Anabledd ehangach i ddarparu data meintiol ac ansoddol. Bydd y data ansoddol hyn yn sicrhau ac yn cynnwys profiadau bywyd.

Bydd yr Uned Tystiolaeth Gwahaniaethau ar Sail Hil hefyd yn cefnogi'r gwaith o gyhoeddi adroddiad blynyddol ar gynnydd.

### **Cyd-gadeiryddion:**

Yr Athro Ogbonna, Prifysgol Caerdydd ac Andrew Goodall, yr Ysgrifennydd Parhaol.

### **8 Cynrychiolydd Amrywiaeth**

Bydd cynrychiolwyr amrywiaeth yn cael eu penodi mewn modd agored a thryloyw. Gwahoddir cynrychiolwyr i fynegi diddordeb i lenwi rolau:

- 8 Cynrychiolydd Amrywiaeth ar gyfer grwpiau pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol, a fydd yn cynrychioli gwahanol rannau o Gymru ac yn cynnwys:

- menywod

- cenedlaethau'r Dyfodol - pobl LHDTTC+

- pobl anabl
- pobl ifanc
- pobl hŷn
- ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches
- cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr

Rydym yn cynnig y dylai'r Cynrychiolwyr Amrywiaeth fod:

- yn byw ac yn gweithio (ac eithrio pobl ifanc a phobl hŷn) yng Nghymru
- â phrofiad personol/uniongyrchol o hiliaeth
- yn gallu darparu cynrychiolaeth croestoriadol
- â phrofiad o – neu fod yn barod i – gymryd rhan mewn proses o helpu i wella polisïau a gwasanaethau a darparu her adeiladol.

Nid oes angen iddynt fod yn aelodau o sefydliadau sy'n gweithio ar faterion sy'n ymwneud â hil (er y gallant fod, ac os felly, byddai angen inni sicrhau cydbwysedd rhwng y sefydliadau a gynrychiolir), ond dylent fod â rhywfaint o allu/cwmpas/ffordd o leoli eu cynrychiolaeth o fewn cymunedau ehangach yng Nghymru (e.e. ni ddylent fod yn unigolion heb gysylltiadau).

Fel grŵp, bydd y Cynrychiolwyr Amrywiaeth:

- o gefndiroedd amrywiol ac â phrofiadau amrywiol;
- o sefydliadau amrywiol, os ydynt yn gweithio i sefydliad, er mwyn sicrhau bod ystod eang yn cael eu cynrychioli.

Gall Llywodraeth Cymru ystyried talu am eu gwasanaethau cyn belled ag y cânt eu penodi drwy broses dryloyw.

### **Recriwtio 7 Arbenigwr ar sail profiad ac arbenigedd ar wrth-hiliaeth:**

Caiff saith arbenigwr eu recriwtio mewn modd agored a thryloyw ar sail profiad bywyd, gydag arbenigedd ym maes gweithredu polisïau gwrth-hiliol, sy'n gysylltiedig â meysydd ffocws y Cynllun ar gyfer gweithredu. Bydd yr arbenigwyr hyn yn gwasanaethu am gyfnod o ddwy flynedd.

Byddant yn wahanol i'r Cynrychiolwyr Amrywiaeth o ran:

- efallai y byddant yn byw neu'n gweithio y tu allan i Gymru (er nad ydym am i bob un ohonynt fod felly);
- y bydd ganddynt brofiad o ymarfer gwrth-hiliaeth mewn gwahanol gyd-destunau sy'n berthnasol i'r gwaith o roi'r Cynllun ar waith;
- fel grŵp, dylid cynnig amrywiaeth o ran profiad a chefnidir, a rhywfaint o groestoriadedd.

Eto, byddai Llywodraeth Cymru yn chwilio am y ffordd orau o sicrhau y byddai'r unigolion hyn yn cael eu talu ac eto, byddai'n eu recriwtio mewn modd agored a thryloyw.

Cynrychiolwyr (dros dro nes y bydd eu gwaith wedi'i gwblhau) o'r gwaith presennol ar wrth-hiliaeth ar gyfer Llywodraeth Cymru:

- Yr Athro Charlotte Williams.
- Gaynor Legall

Gwahoddir cynrychiolwyr ar ran y canlynol:

- Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol;
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru;
- TUC Cymru; • Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru;
- Rhwydwaith Staff Ethnig Lleiafrifol (MESN) Llywodraeth Cymru.

### **Cyd-gynllunydd/cynghorwyr polisi:**

- Pennaeth Tîm Gweithredu Cymru Wrth-hiliol.
- Cyfarwyddwr Cymunedau a Threchu Tlodi.
- Uwch-arweinydd Polisi ar gyfer Cydraddoldebau yn Llywodraeth Cymru (aelod o'r Bwrdd).
- Prif Swyddog Nyrsio Cymru.

### **Arweinwyr polisi sy'n gyfrifol am roi'r Cynllun ar waith:**

Dylai arweinwyr polisi fod yn bresennol i arsylwi ond gallant gymryd rhan pan fo'r drafodaeth yn ymwneud â'u meysydd polisi.

Caiff Gweinidogion Cymru eu gwahodd i'r Grŵp Atebolrwydd ar sail ad hoc er mwyn darparu cyfle i rannu'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd a chynlluniau o fewn eu cylchoedd gwaith i sicrhau Cymru wrth-hiliol.

Caiff y Prif Weinidog (neu'r Gweinidog sy'n dirprwyo yn y mater hwn) ei wahodd ddwywaith y flwyddyn i glywed y diweddaraf ar gynnydd, llwyddiant a meysydd y mae angen canolbwyntio arnynt ymhellach ym marn y Grŵp Atebolrwydd.

Caiff Comisiynwyr, Rheoleiddwyr a Chyrff Archwilio ac Arolygu Perthnasol eu gwahodd i fod yn bresennol o leiaf unwaith.

### **Yr Ysgrifenyddiaeth**

Bydd uwch-aelod o Dîm Gweithredu Cymru Wrth-hiliol yn ymgysylltu â'r Cyd-gadeiryddion yn rheolaidd. Llywodraeth Cymru fydd yn darparu'r ysgrifenyddiaeth, ond yr aelodau a'r Cyd-gadeiryddion fydd yn pennu eitemau agendâu ac yn arwain arnynt.

### **Amserlen Cyfarfodydd**

Bydd y Grŵp yn cyfarfod bob dau fis.

### **Adrodd ac Uwchgyfeirio**

Bydd y Grŵp yn cytuno ar Adroddiad Cynnydd Blynyddol, ac yn cytuno ar amserlen yr adroddiad yn ystod y cyfarfod cyntaf. Bydd y Cadeirydd Allanol hefyd yn cyfarfod â'r Prif Weinidog a'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol ddwywaith y flwyddyn er mwyn codi unrhyw drafodaethau y bydd y Prif Weinidog neu'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol yn ystyried eu bod yn briodol.

### **Atodiad B – Grŵp Cefnogi a Herio Mewnol**

#### **Cefndir**

Mae'r Cynllun Cymru Wrth-hiliol yn nodi gweledigaeth, diben a gwerthoedd a gafodd eu cyd-gynllunio ac y cytunwyd arnynt, a fydd yn sail i'r Grŵp Cefnogi a Herio Mewnol.

#### **Gweledigaeth:**

“Cymru sy'n wrth-hiliol.”

#### **Diben:**

“Cydweithio i wneud gwahaniaeth mesuradwy i fywydau pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yng Nghymru.”

#### **Gwerthoedd:**

“Bod yn agored ac yn dryloyw, rhoi profiad bywyd wrth wraidd popeth a wneir a bod yn seiliedig ar hawliau.”

Tynnodd y cynllun datblygu sylw at broblem a welir ym mhob sector, sef diffyg ymddiriedaeth yn y gwaith o gefnogi neu alluogi camau gweithredu ynghylch cydraddoldeb hil. Mae 'bwllch gweithredu' hefyd, lle mae gwaith a chynlluniau a wnaed gyda bwriadau da yn methu â chyflawni yn erbyn yr amcanion a nodwyd. Er mwyn i'r Cynllun Cymru Wrth-hiliol wireddu'r weledigaeth a'r diben a nodwyd ganddo, bydd angen gwneud gwaith cyson i ennyn a chynnal ymddiriedaeth unigolion, grwpiau a chymunedau ethnig lleiafrifol a sicrhau bod gwaith yn canolbwyntio'n barhaus ar weithredu.

Bydd Grŵp Cefnogi a Herio Mewnol Cynllun Cymru Wrth-hiliol Llywodraeth Cymru (“y Grŵp”) yn gweithio'n rhagweithiol, ac ar y cyd â'r Grŵp Atebolrwydd, yr Uned Tystiolaeth Gwahaniaethau ar Sail Hil a rhanddeiliaid mewnol eraill, a gyda fforymau rhanbarthol ar gyfer hil a grwpiau gwarchoddedig eraill.

Bydd yn sicrhau bod y gwaith a wneir ganddo yn gyson â meysydd a pholisïau eraill Llywodraeth Cymru sy'n ymwneud â chydaddoldeb, ac yn cyd-fynd â nhw. Gweler atodiad 5 ar gyfer rôl a chylch gwaith Grŵp Atebolrwydd Llywodraeth Cymru.

#### **Diben**

Diben cyffredinol y Grŵp fydd sicrhau bod gwaith yn cael ei gyflawni a chynnydd yn cael ei wneud tuag at ddiben y Cynllun mewn modd amserol, ar gyfer y camau gweithredu hynny sydd o dan reolaeth neu ddylanwad Llywodraeth Cymru, gan gynnwys drwy gyllido.

Bydd y Grŵp hefyd yn gweithredu fel man canolog ar gyfer llywodraethu unrhyw waith sy'n ymwneud â hil yn Llywodraeth Cymru, ac yn sicrhau bod gwaith yn gydlynol pan gaiff ei ddatblygu a phan gaiff ei gyflawni. Bydd hefyd yn sicrhau bod y gwaith a wneir yn cydymffurfio â deddfwriaeth Cydraddoldebau. Bydd y Grŵp yn adrodd i'r Grŵp Atebolrwydd ar i ba raddau y mae cynnydd yn cael ei wneud ar y camau gweithredu y mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo iddynt, ac yn cynnig unrhyw flaenoriaethau newydd iddo.

Bydd cylch gwaith y Grŵp yn cynnwys y canlynol:

- llunio adroddiadau'n amlinellu cynnydd ar gyfer meysydd polisi/effaith i'r Grŵp Atebolrwydd;
- cefnogi Gweinidogion yn eu hadroddiadau i'r Grŵp Atebolrwydd a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am gynnydd;
- adeiladu capasiti a gallu o ran ymarfer gwrth-hiliol yn y Grŵp a rhannu'r capasiti a'r gallu hwnnw â Llywodraeth Cymru;
- herio a chefnogi cyd-weithwyr i gynyddu effaith y Cynllun a chefnogi gwaith cydlynol;
- rhannu arferion da a heriau yn y Grŵp;
- ymgymryd â materion trawsbynciol a nodwyd yn y Cynllun ac yn ehangach;
- nodi'r polisiâu allweddol newydd sydd eu hangen a helpu i gyd-gynllunio unrhyw bolisiâu o'r fath;
- gwahodd sefydliadau, gan gynnwys Comisiynwyr, rheoleiddwyr a chyrrff arolygu ac archwilio i drafod materion sy'n rhan o'u meysydd dylanwad;
- cefnogi Grwpiau Gorchwyl a Gorffen a sefydlir gan y Grŵp Atebolrwydd pan fydd Gweinidogion Cymru yn gofyn amdanynt;
- sicrhau dull croestoriadol o ymgymryd â'r holl waith polisi.

### **Ffyrdd o Weithio**

Dylai'r Grŵp Cefnogi a Herio Mewnol a'r Grŵp Atebolrwydd gyd-fynd â'i gilydd a chefnogi ei gilydd, dan arweiniad gwerthoedd y Cynllun. Bydd hyn yn golygu herio gyda lefel uchel o gymorth, gan sicrhau bod profiadau bywyd pobl ethnig leiafrifol yn llywio cynnydd bob amser, bod y Grŵp yn gweithio mewn modd tryloyw ac agored bob amser, a bod y dull a ddefnyddir yn seiliedig ar hawliau ac yn wrth-hiliol.

Bydd y Grŵp yn sicrhau trafodaethau rhagweithiol â grwpiau ehangach o randdeiliad ethnig lleiafrifol a rhanddeiliaid eraill ledled Cymru.

Caiff y Grŵp ei gefnogi gan yr Uned Tystiolaeth Gwahaniaethau ar Sail Hil, a lle y bo angen, yr Unedau Tystiolaeth Cydraddoldeb ehangach i ddarparu data meintiol ac ansoddol.

### **Aelodaeth**

- Cadeirydd: Cyfarwyddwr, Cymunedau a Threchu Tlodi.
- Dirprwy Gyfarwyddwr, Is-adran Gymunedau.
- Pennaeth Tîm Gweithredu Cymru Wrth-hiliol.
- Pennaeth Polisi Hil, Ffydd a Sipsiwn a Theithwyr .
- Pennaeth yr Uned Tystiolaeth Gwahaniaethau ar Sail Hil.
- Pennaeth Cydlyniant Cymunedol.
- Cynrychiolydd o Wasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi (KAS).
- Arweinwyr Polisi sy'n arwain ar y meysydd polisi canlynol:
  - Iechyd
  - Iechyd Meddwl
  - Gofal Cymdeithasol
  - Addysg (Ysgolion) - Addysg (Cyfathrebu)
  - Addysg (Addysg Uwch) - Addysg (Addysg Bellach)
  - Addysg (Addysg Oedolion a Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill)
  - Cyflogadwyedd a Sgiliau
  - Prentisiaethau
  - Adnoddau Dynol Llywodraeth Cymru
  - Penodiadau Cyhoeddus
  - Llywodraeth Leol
  - Diwylliant, Treftadaeth a Chwaraeon
  - Partneriaeth Gymdeithasol a Gwaith Teg
  - Entrepreneuriaeth (a Busnes)
  - Tai a Llety
  - Trosedd a Chyfiawnder
  - Yr Amgylchedd
  - Y Gymraeg
  - Gofal Plant, Chwarae a'r Blynyddoedd Cynnar

- Arolygu Gofal Plant
- Newid Hinsawdd
- Materion Gwledig
- Plant a Theuluoedd.

Gellir ychwanegu eraill wrth iddynt ddatblygu eu cynlluniau gweithredu.

### **Recriwtio 7 Arbenigwr ar sail profiad ac arbenigedd ar wrth-hiliaeth:**

Caiff saith arbenigwr eu recriwtio mewn modd agored a thryloyw ar sail profiad bywyd, gydag arbenigedd ym maes gweithredu polisïau gwrth-hiliol, sy'n gysylltiedig â meysydd ffocws y Cynllun ar gyfer gweithredu. Bydd yr arbenigwyr hyn yn gwasanaethu am gyfnod o ddwy flynedd.

Cânt eu talu, a byddwn yn eu recriwtio mewn modd agored a thryloyw. Bydd y saith arbenigwr hefyd yn aelodau o'r Grŵp Atebolrwydd.

### **Yr Ysgrifenyddiaeth**

Bydd aelod o'r Tîm Gweithredu Cymru Wrth-hiliol yn cydgysylltu â'r Cadeirydd yn rheolaidd. Y Tîm Gweithredu fydd yn darparu'r ysgrifenyddiaeth. Yr aelodau a'r Cadeirydd fydd yn pennu eitemau agendâu ac yn arwain arnynt. Rhagwelir y caiff yr agenda ei phennu drwy gyd-weithio'n agos gyda'r Grŵp Atebolrwydd.

### **Amserlen Cyfarfodydd**

Bydd y Grŵp yn cyfarfod bob mis.

### **Adrodd**

Bydd y Grŵp yn adrodd i'r Ysgrifennydd Parhaol neu ddirprwy a enwebir.

## **Atodiad C – Yr Uned Tystiolaeth Gwahaniaethau ar Sail Hil**

Sefydlwyd yr Uned Tystiolaeth Gwahaniaethau ar Sail Hil ym mis Ionawr 2022 mewn ymateb i'r angen am dystiolaeth gryfach i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb yng Nghymru fel yr amlygwyd gan bandemig COVID-19. Bydd yr Uned Tystiolaeth Gwahaniaethau ar Sail Hil yn gweithio ochr yn ochr â dwy Uned arall (yr Uned Tystiolaeth Cydraddoldeb a'r Uned Tystiolaeth Gwahaniaethau ar Sail Anabledd) o fewn yr Uned Tystiolaeth Cydraddoldeb, Hil ac Anabledd, sydd â Strategaeth Dystiolaeth Cydraddoldeb trosfwaol i sicrhau synergedd, effeithiolrwydd, effeithlonrwydd a chydlyniant.

Cenhadaeth yr Unedau yw gwella argaeledd, ansawdd, manylder a hygyrchedd dystiolaeth am unigolion sydd â nodweddion gwarchoddedig a chysylltiedig er mwyn inni allu deall y lefel a'r mathau o anghydraddoldeb ledled Cymru yn llawn. Bydd hyn yn galluogi'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau i ddatblygu polisïau wedi eu llywio'n well ac i asesu a mesur eu heffaith. Bydd hyn yn ein gyrru tuag at ganlyniadau gwell i bobl sydd â nodweddion gwarchoddedig a chysylltiedig ac yn cyfrannu at ein nod o



'Gymru fwy cyfartal' fel y nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Rydym datblygu Strategaeth Tystiolaeth Cydraddoldeb sy'n disgrifio ein cwmpas, ein cylch gwaith a'n cynlluniau, a'n bwriad yw ei cyhoeddi ym mis Medi 2022. Mae'r blaenoriaethau ar gyfer pob uned yn cael eu datblygu gyda rhanddeiliaid yn seiliedig ar ymrwymïadau sydd eisoes wedi'u gwneud a gofynion sy'n dod i'r amlwg yn y Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, y Cynllun Hyrwyddo Cydraddoldeb rhwng y Rhywiau, y Cynllun Gweithredu LHDTTC+ a'r Tasglu Hawliau Pobl Anabl. Bydd y rhain hefyd yn cael eu cyhoeddi ym mis Medi ochr yn ochr â'r strategaeth

Mae rhai tasgau cychwynnol y mae'r Uned Tystiolaeth Gwahaniaethau ar Sail Hil wedi eu dechrau yn cynnwys:

- cynnal archwiliad tystiolaeth fydd yn rhoi dealltwriaeth o'r wybodaeth sydd ar gael, a'r bylchau a'r anghysondebau sydd angen sylw. Unwaith y bydd bylchau wedi'u nodi, byddwn yn blaenoriaethu'r rhan gyda rhanddeiliaid er mwyn eu datrys.
- cynnal casgliad data o nodweddion cydraddoldeb Cyrff Cyhoeddus rheoledig. Bydd y flwyddyn beilot yn sefydlu llinell sylfaen ar gyfer niferoedd aelodau'r bwrdd, ac aelodau o staff o bosib, os yw'r rhain ar gael. Bydd y flwyddyn beilot yn gwneud argymhellion ar gyfer casgliadau'r dyfodol er mwyn annog rhoi sylw cyflawn i'r holl nodweddion lleiafrifol ac ystyried ymestyn y casgliad i Gyrff Cyhoeddus eraill a'r tu hwnt, yn ogystal â chynnwys gwybodaeth ychwanegol, er enghraifft niferoedd yn cael eu recriwtio, niferoedd yn ôl gradd ac ati.

Mae'r Unedau Tystiolaeth Cydraddoldeb, Hil ac Anabledd yn meithrin perthynas â rhanddeiliaid ac eraill sy'n dal data y gellid ei ddefnyddio i lenwi'r bylchau mewn data amrywiaeth drwy gytundebau rhannu data a chysylltu â sefydliadau.